

**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**  
**COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2021**  
15 Tachwedd 2021, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

**1. Presennol**

Dafydd Watts, Elin Jones, Glyn Griffiths,

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

**2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol**

Dim

**3. Ymddiheuriadau**

Llio Griffiths, Richard Jones, Eleri Owen

**4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2 Tachwedd 2020 a Chyfarfod 6 Medi 2021**

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Dafydd Watts

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

-

**5.1 ARDAL NI 2035**

Mynychodd Dafydd Jones o Gyngor Gwynedd gyfarfod efo rhai o aelodau o'r cyngor cymuned ddechrau Tachwedd er mwyn trafod gweledigaeth a chynllun ARDAL NI 2035. Mae cofnodion o'r cyfarfod wedi ei ddanfôn at bawb.

Bydd trafodaethau yn digwydd hefyd efo cynghorau cymuned eraill, a bydd Dafydd Jones yn cysylltu efo yn fuan yn y flwyddyn newydd..

**5.2 Anghenion Tai Lleol**

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 4 Hydref. Mae cofnodion o'r cyfarfod wedi mynd at ADRA a Chynefin. Disgwylir ymateb gan ADRA.

Cafwyd ymateb gan Gynefin wedi gofyniad am ddiweddariad ar yr angen am dai yn Llanfrothen. Dyma'r sefyllfa:-

Tŷ 3 stafell wely - 16 cais (un cais efo preswyliaid 5+ mlynedd yn y gymuned)

Byngalo 1 stafell wely - 15 cais (1 cais efo preswyliaid 5+mlynedd yn y gymuned)

Byngalo 2 stafell wely - 19 cais (1 cais efo preswyliaid 5+ mlynedd yn y gymuned)

Mae'n bosibl y bydd yna ddyblygu rhwng y rhifau byngalo 1 llofft a'r byngalo 2 lofft.

### **5.3 13 Garreg Frech**

Ysgrifennodd aelod o'r cyhoedd at Gyngor Gwynedd parthed y mater ar 30 Awst, ond ni chafwyd ymateb ganddynt. Mae Mabon ap Gwynfor AS hefyd wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd hefyd a disgwylir ymateb

### **5.4 Y Ganolfan**

Mae aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu â'r Clerc yn gofyn pa ddefnydd a wneir o'r Ganolfan.

Cytunwyd i drafod defnydd o'r Ganolfan yng nghyfarfod mis Ionawr.

Mae cyfarwyddiadau wedi eu rhoi i'r beipen sgrap y tu allan i'r Ganolfan gael ei symud.

### **5.5 Ynni Hydro Croesor a Chyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw**

Cafwyd ymateb gan Balfours yn dilyn llythyr gan y cyngor cymuned yn gofyn am fwy o fanylion ar gynllun ynni hydro Croesor.

Cytunwyd fod yr ymateb yn dderbyniol, ond fod angen gofyn am fwy o fanylion ar sut mae'r ffi incwm net o 10% yn cael ei gyfrifo ganddynt, a gofynnwyd am eglurhad pellach ar hyn.

Bydd gwahoddiad i gynrychiolwyr y cyngor cymuned fynychu cyfarfod ymddiriedolwyr Brondanw yn y gwanwyn.

Mae Balfours wedi crybwyll cynnal trafodaeth ar gynhesu tai oherwydd mae'n anodd ynysu tai Stad Brondanw a/neu osod paneli solar. Mae Ynni Twrog yn bwriadu hwyluso cyfarfod efo ADRA, Stad Brondanw, ac o bosibl Cynefin. Bydd mwy o fanylion am hyn maes o law, ond fe gytunwyd y byddai'n dda pe byddai cynrychiolydd o'r cyngor cymuned yn mynychu.

## **5.6 Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain**

Mae'r gronfa yma yn cynnig grantiau o hyd at £500 ar gyfer prosiectau cymunedol bychan. Mae'n bosibl y byddai'r gronfa yma yn addas ar gyfer gwneud cais am rac beics i Siop a Chaffi Llanfrothen.

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths i ddanfon manylion ymlaen at Fenter Llanfrothen.

## **5.7 Polisiâu'r Cyngor Cymuned**

Derbyniwyd polisiâu drafft gan Un Llais Cymru. Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi mynd drwyddynt ac wedi gwneud rhestr o'r rhai fyddai fwyaf addas eu mabwysiadu. Bydd angen eu cyfieithu hefyd.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru pa rai oedd ar gael yn y Gymraeg, ac ystyried yr angen am bolisi bioamrywiaeth yng nghyfarfod Ionawr.

Cytunwyd i fabwysiadu'r polisiâu canlynol mewn egwyddor:-

- Polisi Gwybodaeth a Diogelu Data
- Polisi Cadw a Gwaredu Dogfennau
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Parch yn y Gwaith
- Polisi Adolygu Perfformiad a Gweithdrefnau
- Polisi a Gweithdrefnau ar Asesu Risg ac Adnabod Perygl
- Polisi Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau
- Polisi Iaith Gymraeg

**Cynnig:** Dafydd Watts

**Eilio:** Glyn Griffiths

## **5.8 Mynwent Tan Lan**

Mae Idris Jones wedi cytuno i wneud arwydd ar gyfer y fynwent, yn gofyn i bobl fynd a'u sbwriel oddi yno. Gwneith ddanfon cynllun a phris.

## **5.9 Cyfrifon HSBC**

Cytunwyd i drafod y 3 cyfrif yng nghyfarfod mis Ionawr 2022.

## **6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Medi 2021 £239.52

TWE £60.00

- 6.2 Cyflog Clerc Hydref 2021 £239.72  
TWE £59.80
- 6.3 Anfoneb Dylan Edwards 18/10/21 – Torri gwair mynwent Tan Lan 2020/21 £1,800
- 6.4 Anfoneb Scottish Power 15 Hydref 2021 £78.60
- 6.5 Anfoneb Gwasg Cymru 2596 23.09.21 200 taflen A4 cyfarfod cyhoeddus 6 Hydref 2021 £43.00
- 6.6 Ad-dalu costau Nia Povey am stampiau £132.00 am 100 stamp ail-ddosbarth, £4.00 am amlenni ar gyfer cyfarfod cyhoeddus Hydref 2021
- 6.7 Anfoneb Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd 2020/21 09/09/21 £228.00
- 6.8 Balans yn y banc 25 Hydref 2021 £33,800.61
- 6.9 Cyfrifon Banc HSBC

## 7. Gohebiaeth

- Gardd gymunedol Llanfrothen – Y Dref Werdd

Mae'r Dref Werdd wrthi'n sefydlu gardd gymunedol y tu ôl i'r ysgol yn Llanfrothen ac yn gofyn am gyfraniad ariannol. Croesawyd yr ardd mewn egwyddor, ond gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Y Dref Werdd er mwyn gofyn am fwy o wybodaeth cyn cytuno i wneud cyfraniad ariannol ai peidio.

- Cymdeithas yr Iaith – cais am lythyr o gefnogaeth i rali Nid yw Cymru ar Werth

Gan fod y cyfarfod yma wedi ei ohirio o 1 Tachwedd, mae'r dyddiad i ateb i lythyr Cymdeithas yr Iaith wedi mynd heibio.

## 8. Cynllunio

Dim

## 9. Materion Eraill

### 9.1 Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd

Mae Fforwm Cymunedol yn cael ei sefydlu yn dilyn dyfarnu statws treftadaeth y byd i ardaloedd chwarelyddol Gogledd Orllewin Cymru. Gofynnir am gynrychiolydd ar y Fforwm gam gynghorau cymuned.

Gan y bydd yna etholiad ym mis Mai 2022, penderfynwyd peidio â danfon enwau penodol at y Fforwm, ond i ddweud wrthynt fod gan y cyngor cymuned ddiddordeb i fod yn rhan o'r Fforwm a gofyn iddynt gysylltu â'r Clerc yn ôl yr angen.

## **9.2 Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned**

Cytunwyd i drafod y protocol hwn pan yn trafod polisiau'r cyngor cymuned.

## **9.3 CSGA – Ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Gwynedd**

Cytunwyd bod aelodau yn ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad yma

## **9.4 Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar drethi lleol ar ail gartrefi a llety hunanarlwyo**

Cytunwyd i wneud sylw ar y cwestiwn a ydy premiwm 100% ar ail gartrefi a llety hunanarlwyo yn ddigon neu os oes angen codi mwy, drwy awgrymu fod angen codi premiwm uwch.

## **9.5 Ymgynghoriad ar Gynigion Cychwynnol Comisiwn Ffiniau i Gymru**

Derbyniwyd er gwybodaeth.

## **9.6 Goryrru yn Llanfrothen**

Trafodwyd goryrru yn Llanfrothen.

Cafwyd trafodaeth efo Cyngor Gwynedd beth amser yn ôl, ble y cytunodd Cyngor Gwynedd i edrych ar y posibilrwydd o osod cyfyngiad cyflymder graddol, o 60 i 40 i 30 ar y ffordd i mewn i Lanfrothen o Benrhyndeudraeth.

Roedd ystyriaeth hefyd i osod arwydd fflachio cyflymder hefyd. Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi yn y gorffennol na fyddent yn fodlon talu am arwydd fflachio cyflymder, a byddai'n rhaid i'r cyngor cymuned dalu am hynny eu hunain a'r gost yn debygol o fod yn £3,000 o leiaf gyda chostau cynnal a chadw ar ben hynny.

Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod sribedi mesur cyflymder ar y ffordd i mewn i Lanfrothen o Tan Lan, a gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd beth oedd canlyniad yr arolwg hynny.

Trafodwyd gosod sribedi mesur cyflymder ar y B4410 i gyfeiriad Rhyd, ond gan fod traffig ar hyd y ffordd yma yn gymharol isel yn y gaeaf o'i gymharu â'r haf, fe gytunwyd mai gwell fyddai gwneud hyn yn ystod misoedd yr haf, pan fyddai traffig a rai uchaf

### **9.7 Parcio Car o Flaen Mynedfa Garreg Frech**

Mae cerbyd yn parcio'n aml o flaen mynedfa Garreg Frech, ger y tŷ o'r enw Llwyn sydd ym mherchnogaeth ADRA, gan amharu ar welediad y ffordd a chynyddu'r risg o ddamwain, yn enwedig pan fo'r ysgol ar agor. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at ADRA i'w hysbysu o'r broblem.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf -10 Ionawr 2022 drwy gyfrwng Microsoft Teams**